# RHONDDA CYNON TAF
# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cynghorydd Andrew Morgan ynglŷn â'i weithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

*Mae cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y maen nhw'n dymuno ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i'r fformat* ***2 dudalen (uchafswm)****.*

**Cynghorydd:** **Andrew Morgan**

**Ardal etholiadol:** **Gorllewin Aberpennar**

## Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

**Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet**

- Strategaeth a blaenoriaethau allweddol
- Cyllid a rheolaeth y gyllideb
- Rhaglen Gyflenwi a'r Cynllun Corfforaethol
- Cysylltiadau Llywodraeth
- Y Fargen Ddinesig
- Diogelu drwy'r Cyngor i gyd
- Rhaglen seilwaith allweddol a chyfalaf
- Partneriaeth a gweithio ar y cyd
- Cynnal a chadw priffyrdd a rheoli traffig

**Aelod o'r Pwyllgorau/Cyrff canlynol**

- Cyngor Llawn
- Cabinet
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Panel Ymgynghorol Gweithwyr Cyflogedig
- Pwyllgor Penodiadau
- Cydbwyllgor Ymgynghori

**Aelod o'r Pwyllgorau/Cyrff Allanol canlynol**

- Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llywydd
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llefarydd Trafnidiaeth a Seilwaith
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llefarydd Gwastraff a Datblygu Cynaliadwy
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Is-Bwyllgor Rheoli ac Archwilio
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Cyllid ac Is-grŵp
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Bwrdd Gweithredol
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru
- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Bwrdd y Prosiect
- Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De
- Bwrdd Rhaglen Gweinidogol ar gyfer Gwastraff
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon

- Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf

## Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Yn ystod 2017/18, rwyf wedi parhau i gefnogi nifer o brosiectau a gafodd eu datblygu yn ward Gorllewin Aberpennar, ac rwyf hefyd wedi helpu i gynnal nifer o grwpiau lleol trwy eu cynorthwyo gyda cheisiadau i'r Cyngor am gynlluniau cyllid grant sy'n cefnogi yr hyn maen nhw'n ceisio ei gyflawni.

Rwyf wedi mynd i'r afael â phryderon trigolion a masnachwyr canol y dref, ac rwy'n rhagweithiol wrth geisio datrys unrhyw faterion sydd wedi codi gydag adrannau perthnasol y Cyngor a/neu sefydliadau allanol fel sy'n briodol, gan roi adborth pan fo angen.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ac yn cysylltu â'r Heddlu ynghylch materion sy'n effeithio ar y gymuned leol yn rheolaidd. Rwyf hefyd yn weithgar gyda grwpiau cymunedol fel pwll Parc Gwernifor.

A minnau'n Gadeirydd y Llywodraethwyr mewn dwy ysgol, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'u Prifathrawon, er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r ysgolion a'u cyflawniad.

Bob blwyddyn rwy'n helpu i drefnu'r Rasys Nos Galan blynyddol, a gafodd eu henwi'n **INSERT AWARD**. Mae'r Rasys yn amlygu ysbryd cymunedol gwych Aberpennar ac mae'r achlysur yn ddathliad gwych i'r gymuned leol.

## Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

A minnau'n Arweinydd y Cyngor, rwy'n gweithio'n agos gyda'm cyd-Aelodau Cabinet a Swyddogion y Cyngor i gyflawni buddsoddiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol er lles yr holl drigolion.

Rwyf wedi cwrdd â Gweinidogion o Lywodraeth Cymru sawl gwaith er mwyn cynghori ynghylch sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â phrosiectau mawr yn y Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarth ehangach trwy fentrau megis Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Adran 4: Dysgu a Datblygu

Gwaith Cynnal a Chadw y Gaeaf
Amddiffyn Plant

## Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

- Aelod o Bwyllgor Nos Galan, sy'n trefnu'r Rasys Nos Galan blynyddol
- Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Glenboi ac Ysgol Gynradd y Darren-las
- Grŵp Amgylcheddol y Darren-las
- Adeilad y Gymuned, Y Darren-las
- Canolfan Gymunedol Fernhill

**Llofnod y Cynghorydd:** A. morgan **Dyddiad: 04 Mai 2018**